**Cyfarfod Llawn 2002 - 2003 (56)**

**Dydd Mercher, 12 Mawrth 2003**

# AGENDA

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**
Cliciwch yma am y cwestiynau

**Eitem 2**
**Cwestiynau ar Gyllid i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Cliciwch yma am y cwestiynau

**Eitem 3**
***Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 22.25***
**Rheoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu'r Awdurdodau Lleol a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2003**
**The Health & Social Care Act 2001 (Commencement No 4) (Wales) Order 2003**
**Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2003**
**NDM1395 Carwyn Jones**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

1. Yn cymeradwyo:
Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2003.

2. Yn ystyried:
a) Adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol a Newidiadau Amrywiol (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Chwefror 2003;
b) Y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd mewn e-bost at yr Aelodau ar 5 Mawrth 2003.

Cliciwch yma am y gorchymyn
Cliciwch yma am adroddiad y pwyllgor deddfau
Cliciwch yma am y Memorandwm Cywiriadau

3. Yn cymeradwyo:
Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2003 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Chwefror 2003.

4. Yn ystyried:
Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2003 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2003;

Cliciwch yma am y Gorchymyn
Cliciwch yma am adroddiad y Pwyllgor Deddfau

5. Yn cymeradwyo:
Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Chwefror 2003.

6. Yn ystyried:
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2003;

Cliciwch yma am y Gorchymyn
Cliciwch yma am adroddiad y Pwyllgor Deddfau

**Eitem 4**
**Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig rhif 3 - Hyblygrwydd 2003-04**
**NDM1396 Carwyn Jones**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

O dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 3) (Cymru) 2003 a e-bostiwyd at yr Aelodau ac a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mawrth 2003.

Cliciwch yma am yr adroddiad

**Eitem 5**
**Cynnig i gymeradwyo a Rheol Sefydlog dros dro ar gyfer trefniadau cyfarfod cyntaf y Cynulliad yn dilyn yr etholiad -** *Ni chyflwynwyd cynnig*

**Eitem 6**
**Dadl am Geisiadau ar gyfer Deddfwriaeth Sylfaenol yn y Dyfodol o dan Reol Sefydlog 31**
**NDM1398 Carwyn Jones**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn gweithredu o dan Reol Sefydlog 31.9:

1. Yn cymeradwyo cynigion y Cabinet ar gyfer mesurau yn y sesiwn Seneddol nesaf fel y'u nodir yn y ddogfen a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 5 Mawrth 2003; a

2. Yn gofyn i'r Cabinet drafod y cynigion hyn â Llywodraeth y DU, a phwyso am ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n adlewyrchu anghenion penodol Cymru ac yn parchu rôl y Cynulliad.

Cliciwch yma am y ddogfen

**Eitem 7**
**Dadl am adolygiad blynyddol 1af y Cynllun Gweithredu ar Sgiliau a Chyflogaeth yng Nghymru**
**NDM1397 Carwyn Jones**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r camau a wnaed i roi'r Cynllun Gweithredu ar Sgiliau a Chyflogaeth ar waith; a

2. Yn galw ar y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i gynhyrchu, erbyn Gwanwyn 2004, Gynllun ategol ymgynghorol drafft a fydd yn cymryd i ystyriaeth y dystiolaeth a fydd yn deillio o arolwg Sgiliau Dyfodol Cymru 2003 wedi iddo gael ei dderbyn a'i werthuso.

*Gellir clicio ar y cyswllt isod i gael golwg ar y Cynllun Gweithredu ar Sgiliau a Gwybodaeth:*
http://cynulliad/education/employment/pdf's/employmentandskillsactionplan.pdf

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu "Croesawu" a rhoi "Nodi" yn ei le.

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pwysigrwydd cynyddol cael Cynllun Gweithredu ar Sgiliau a Chyflogaeth a weithredir yn llwyddiannus, yn wyneb y golled net 27,000 o swyddi medrus mewn gweithgynhyrchu rhwng Medi 1999 a Medi 2002.

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu nod y Cynllun Gweithredu o helpu mwy o bobl i gael gwaith parhaol ond yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i fodloni'r targedau creu swyddi ar gyfer ardal Amcan 1 yr oedd wedi eu pennu ar gyfer Mawrth 2003.

**Eitem 8**
Dadl Fer - NDM1394 Gwenda Thomas (Castell-nedd); Ymateb Brys, llai o oedi cyn rhyddhau cleifion o ysbytai

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 18 Mawrth 2003**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**